**Ymateb ysgrifenedig i adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar Blismona'r Ffyrdd yng Nghymru – Y Maniffesto, gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth**

**Mawrth 2009**

## Crynodeb

Cyhoeddodd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, Cymru (ACPO Cymru) ar y cyd â Llywodraeth y Cynulliad, ddogfen ddrafft o'r enw 'Plismona'r Ffyrdd yng Nghymru – Y Maniffesto'. Cynigiai fentrau ar gyfer plismona heolydd Cymru'n well.

Cyflwynwyd y ddogfen ddrafft i'r Pwyllgor Menter a Dysgu gan Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru, Richard Brunstrom ar 29 Ionawr. Ar ôl i'r Pwyllgor ei ystyried, lluniodd adroddiad oedd yn crynhoi'r dystiolaeth y cafodd ei gweld a chynnig nifer o argymhellion i APCO Cymru a Llywodraeth y Cynulliad.

Rwy'n rhestru isod fy ymateb i argymhellion yr adroddiad.

## Ymatebion Manwl i argymhellion yr adroddiad:

Mae'r Pwyllgor yn argymell fod :

1. Llywodraeth Cynulliad Cymru'n defnyddio ei phwerau o dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 i gynnig is-ddeddfwriaeth i sefydlu gwasanaeth swyddogion traffig yng Nghymru ac yn gweithio gydag ACPO Cymru i hyfforddi a gwella sgiliau'r personél presennol i roi'r gwasanaeth ar waith.

## Ymateb: Ei dderbyn yn rhannol

Rydym wrthi'n ystyried treialu'r model newydd ar gyfer plismona ffyrdd strategol am 6 mis ar yr A55 yn y Gogledd yn ddiweddarach eleni. I fynd â'r cynllun hwn yn ei flaen, rwyf wedi cytuno bod Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth y Cynulliad yn dechrau drafftio Gorchymyn Cychwyn ar gyfer Rhan 1 Deddf Rheoli Traffig 2004. Pan ddaw i rym, bydd Gweinidogion Cymru'n gallu dewis Swyddogion Traffig ar gyfer y peilot ac ar gyfer gwasanaeth ehangach pan gaiff ei roi ar waith mewn rhannau eraill o'r wlad.

Fel rhan o'r cynlluniau ar gyfer peilot yr A55, caiff pedwar o stiwardiaid llwybr Asiantaeth Cefnffyrdd y Gogledd eu penodi'n Swyddogion Traffig. Bydd ganddynt y pwerau i stopio a chyfeirio traffig a delio â digwyddiadau ar goridor yr A55 o gyffordd 11 i'r ffin â Lloegr (mae'r coridor yn cynnwys yr A55, yr A550 a rhan ddeuol yr A495). Cyn dechrau gweithio, bydd y swyddogion yn cael eu hyfforddi gan yr heddlu. Bydd yr hyfforddiant yn debyg i'r hwnnw a roddir i Swyddogion Traffig yr Asiantaeth Briffyrdd yn Lloegr.

**Goblygiadau ariannol:** Daw'r arian ar gyfer treialu'r model plismona newydd o'n cyllidebau presennol. Cyn rhoi'r gwasanaeth ar waith mewn rhannau

prysur o rwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd gweddill Cymru bydd y peilot wedi gorfod profi ei fod yn effeithiol, yn werth yr arian ac yn gynaliadwy o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Mae'r Pwyllgor yn argymell fod:
2. Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gwerthuso'r arfer gorau a welir yng Ngogledd Ewrop o ran creu parthau ac yn adolygu'r polisi presennol mewn perthynas â pharthau 20mya, parthau o gwmpas cartrefi a lonydd tawel**.**

**Ymateb: Ei dderbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn llwyr gefnogi ysbryd yr argymhelliad hwn. Mae'n ategu'r ymrwymiad yn "Cymru: Gwlad Well" i greu parthau 20mya a ffyrdd diogel i ysgolion.

Fel ag y mae Cymru'n Un yn ei ddatgan, rydym wedi ymrwymo i wneud ein ffyrdd yn fwy diogel trwy fuddsoddi mewn ffyrdd diogel i ysgolion/mewn cymunedau ac mewn parthau 20mya. Mae'r Cynulliad wedi rhoi Grant Diogelwch Ffyrdd Lleol bob blwyddyn ers 2000 ac mae awdurdodau lleol yn cael defnyddio'r arian hwn i greu cynlluniau 20mya. Hyd yn hyn, mae dros £54m wedi'i neilltuo, ac ar 31 Awst 2008, roedd 438 o gynlluniau yng Nghymru â pharth neu gyfyngiad 20mya yn rhan ohonynt. Ar ôl ymgynghori'n eang, byddwn yn cyhoeddi canllawiau cyn hir ar 'Bennu Terfynau Cyflymder Lleol'.

O dan Ddeddf Trafnidiaeth 2000, mae awdurdod traffig yn cael cyhoeddi bod unrhyw heol o dan ei ofal yn Lôn Dawel neu'n Barth Cartrefi, ac rydym wrthi'n ystyried paratoi rheoliadau neu ganllawiau i awdurdodau lleol i'w helpu yn hyn o beth.

**Goblygiadau ariannol** – Daw'r rhan fwyaf o'r arian ar gyfer hyn o'r Grant Diogelwch Ffyrdd Lleol. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau presennol y rhaglen.

Mae'r pwyllgor yn argymell y dylai:

3. ACPO Cymru a VOSA ddadansoddi unrhyw dueddiadau sy'n ymddangos o ran cynnydd mewn tor cyfraith a allai ddod yn amlwg dros y misoedd nesaf a'u bod yn cyflwyno adroddiad ar eu canfyddiadau i'r Adran Drafnidaeth i'w hystyried ymhellach.

**Ymateb:**

Mater i ACPO Cymru a VOSA yw hwn. Fodd bynnag, rwy'n deall fod y ddau'n dadansoddi'r lefel troseddau a gwrthdrawiadau gan ddefnyddio'r *National Intelligence Model*. Mae gan VOSA ei Huned Dadansoddi Strategol ac mae gan bedair Heddlu Cymru un pwynt cyswllt sy'n crynhoi'r wybodaeth ar lefel genedlaethol. Pan welir tuedd, trefnir rhaglen blismona genedlaethol benodol fel 'Coachman' a 'Mermaid' i fynd i'r afael â hi, lle bydd cyd-asiantaethau

gorfodi'n defnyddio'r pecynnau gwybodaeth fydd yn cael eu datblygu i dargedu'r defnyddwyr hynny sydd fwyaf peryglus i'r cyhoedd ar y ffyrdd.

**Goblygiadau ariannol**

Dim i Lywodraeth y Cynulliad.

Mae'r pwyllgor yn argymell

4. O gofio'r ymrwymiad presennol i gydweithio rhwng y gwasanaethau, eu bod yn cynllunio ar y cyd gyda'r bwriad o gyflenwi pecyn o ansawdd uchel sydd wedi ei werthuso ar feysydd tactegol perthnasol y maniffesto a materion cysylltiedig mewn ysgolion a sefydliadau addysgol eraill a bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n paratoi ac yn cyhoeddi canllawiau i benaethiaid ynghylch sut y byddai fwyaf defnyddiol i gynnwys a chyflenwi'r cyfarwyddyd hwn yn ystod gwahanol gyfnodau'r cwricwlwm.

**Ymateb: Ei dderbyn**

Rhan ganolog o'r broses addysgu mewn ysgolion yng Nghymru yw rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau ymarferol i blant a phobl ifanc iddynt allu gwneud y dewisiadau gorau i'w cadw eu hunain a phobl eraill yn ddiogel. O safbwynt y cwricwlwm diwygiedig yng Nghymru, mae amrywiaeth o gyfleoedd i ysgolion ddysgu eu disgyblion am ddiogelwch.

Mae Llywodraeth y Cynulliad a phedair Heddlu Cymru yn cydariannu Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan (AWSLCP). Mae'n cael ei darparu fel rhan o'r rhaglen ABCh yn 97% o ysgolion Cymru. Mae'r bartneriaeth rhwng ysgolion a'r heddlu yn cynnig strategaeth adeiladol i ysgolion gan ei bod yn cynnig cyfleoedd i wella gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiad, ymagweddau a sgiliau pob disgybl o safbwynt:

- Addysg am gamddefnyddio cyffurau a sylweddau eraill
- Ymddygiad cymdeithasol a'r Gymuned
- Diogelwch

Mae'r rhaglen wedi'i rhannu'n 15 gwers graidd: pump ymhob llinyn. Yn ogystal, mae 18 o wersi atodol wedi'u datblygu gan gynnwys dwy wers ar gyfer disgyblion uwchradd o fewn y llinyn Ymddygiad Cymdeithasol a'r Gymuned sy'n ymdrin â diogelwch ar y ffyrdd a gyrru diogel, yn arbennig:

- "Wheels of fortune": gwers Cyfnod Allweddol 3 am yrru'n ddiogel
- "Know fear": gwers Cyfnod Allweddol 4, eto am yrru'n ddiogel ond gyda phwyslais ar yfed a gyrru a chanlyniadau cyfreithiol cael damwain.

Mae AWSCP wrthi'n datblygu rhagor o ddeunydd ar-lein ar gyfer athrawon sy'n cynnwys gweithgareddau dysgu ychwanegol fel cwis ar yrru'n ddiogel, arolwg o ystadegau gyrru pobl ifanc Cymru a dolenni i wefannau ar gyfer pobl ifanc fel 'Deadly mates'.

A hithau'n gyfnod o newid digynsail i bolisi addysg gyda chyflwyno mentrau fel y cyfnod sylfaen a llwybrau dysgu 14-19 oed, rydym ni'n credu bod cyfle i ymgorffori agweddau ar yrru amddiffynnol yn y cwricwlwm er mwyn dysgu plant a phobl ifanc am yr arferion gorau.

Gwahoddwyd yr heddlu i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar gwricwlwm ABCh a daeth dau gynrychiolydd o AWSCP i'r gynhadledd ar y pwnc yn Llandrindod yn 2007. Mae llawer o ysgolion yn cydweithio'n glos â'u heddluoedd a'u gwasanaethau tân lleol i ddatblygu rhaglenni ABCh.

Mae llawer o ysgolion uwchradd eisoes yn trafod gyrru diogel gyda'u disgyblion Blwyddyn 12. Er hynny, nid yw ABCh yn bwnc gorfodol i'r disgyblion hyn a mater i'r sefydliadau yw ei dysgu ai peidio. Mae'r Rhaglen Graidd yn mynd i'r afael â'r pryderon hyn. O ran cynghori ysgolion, pe bai astudiaeth achos addas yn cael ei datblygu, gellid ei rhoi ar wefan ABCh. Gallai swyddogion:

- Sicrhau ansawdd y deunydd dysgu i wneud yn siwr ei fod yn cysylltu â'r fframwaith diwygiedig ar gyfer ABCh a'r cwricwlwm diwygiedig.
- Sicrhau cyfle i dynnu sylw Grŵp Cynghori AALl Cymru Gyfan ar ABCh at yr adnawdd.

**Goblygiadau ariannol** – Dim.

Mae'r Pwyllgor yn argymell fod:

5. Llywodraeth Cynulliad Cymru'n rhoi cyllid a chymorth digonol, ac yn gweithio gydag ACPO Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill, i lunio ymgyrch gyhoeddusrwydd effeithiol a sicrhau y caiff fersiwn o'r maniffesto sy'n addas ar gyfer gyrwyr ei lledaenu'n eang.

**Ymateb: Ei dderbyn**

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu gweithio ar y cyd ag ACPO Cymru a phob rhanddeiliad arall i roi'r Maniffesto ar waith ac i roi cyhoeddusrwydd iddo.

**Goblygiadau ariannol** – Dim. Caiff y gweithgaredd hwn ei integreiddio i gynlluniau diogelwch eraill a'i ariannu o gyllidebau sy'n bod eisoes.